**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**
**YNYS MÔN 2026**

Cystadleuaeth 134 – Llefaru Unigol Bl. 3 a 4

**Cymryd rhan sy'n bwysig, Meirion MacIntyre Huws**

"Go dda!" medd Mrs Williams
"Mi wnest dy orau glas.
Sdim ots os wnes ti faglu
a pheidio â gorffen y ras."

"Nid ennill sydd yn bwysig
Ond cymryd rhan â gwên,
Os yw dy dîm yn colli
Rhaid ysgwyd llaw yn glên."

"Sdim ots wrth chwarae criced
Os mai ti oedd yr unig un
I fethu'r bêl bob cyfle,
A llwyddo i daro dy hun."

"Cymeraist ran yn hwyliog,
A dyna ydi'r nod,
Nid ceisio curo'r gweddill
A chwilio am sylw a chlod."

"Gofynnais wrth Mrs Williams,
(Sy'n gwybod pob peth yn y byd),
"Os mai cymryd rhan sy'n bwysig
Pam cadw sgôr o hyd?"